Cydfyw – eich hawliau

Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod hawliau pobl sy'n cydfyw sydd:

- heb briodi (os ydynt yn heterorywiol) neu
- ddim mewn partneriaeth sifil (os ydynt yn lesbiaid neu'n hoyw)

Yng ngwahanol feysydd o'r gyfraith, mae'n bosib nad oes gennych yr un hawliau â phetaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Nid yw'r daflen ffeithiau hon yn rhestru eich hawliau yn llawn. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Cymorth Ychwanegol ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

Beth ddywed y gyfraith

Er bod y termau gwraig neu ŵr cydnabyddedig yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i ddisgrifio partneriaid sy'n cydfyw, nid oes gan y perthnasau hyn gydnabyddiaeth gyfreithiol.

Os ydych am bwysleisio eich hawliau cyfreithiol mewn perthynas â rhai agweddau penodol o'ch perthynas gyda'ch partner, gallech wneud cyfres o gytundebau a fydd yn cael eu cydnabod gan y llys. Gall y cytundebau hyn ymwneud â rhannu cyfrifoldeb am y eich plant, perchnogaeth o'ch cartref a pherchnogaeth o eiddo yr ydych yn berchen arno ar y cyd. Bydd angen cymorth cyfreithiwr profiadol arnoch i wneud hyn.

Cyfrifoldeb dros blant

Nid yw partner gwrywaidd yn cael ei ystyried o reidrwydd i fod yn dad ei blentyn. Bydd mam ddi-briod yn llwyr gyfrifol am ei phlentyn heblaw:

- bod genedigaeth y plentyn yn cael ei gofrestru ar y cyd gyda thad y plentyn
- bod cytundeb ffurfiol (gelwir hyn yn gytundeb cyfrifoldeb rhieni), yn cael ei wneud gyda thad y plentyn
- bod gorchymyn llys yn cael ei wneud sy'n ffafrio'r tad
- mai'r tad yw gwarcheidwad y plentyn (bydd y tad dim ond yn cael cyfrifoldeb os yw'r fam yn marw)
- bod y tad yn priodi'r fam.

Fodd bynnag, mae'r ddau riant yn gyfrifol am gynnal y plentyn yn ariannol. Os mai chi sy'n gyfrifol am ofal dyddiol y plentyn, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu cynhaliaeth. Os mai chi yw'r tad, mae gennych gyfrifoldeb ariannol hyd yn oed os nad ydych yn byw gyda'r fam neu wedi'ch enwi ar dystysgrif geni'r plentyn. Gall yr Asiantaeth Cynnal Plant gysylltu â chi am gynhaliaeth.

Os ydych yn gwahanu, mae'n bosib y byddwch chi a'ch partner yn dod i drefniant anffurfiol ynglŷn â chysylltiad gyda'ch plentyn. Os nad yw hyn yn bosibl, mae modd gofyn i'r llys ymyrryd. Bydd gorchymyn llys fel arfer yn caniatáu cysylltiad rhwng y

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

plentyn a'r rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol.

Fel partner lesbiaidd neu hoyw, mae'n bosib y gallwch gael cyfrifoldeb rhieniol dros blentyn eich partner. Bydd eich opsiynau yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Mae'n bosib yr hoffech gyngor ynglŷn â hyn.

Mabwysiadu

Gall unrhyw bâr sy'n cydfyw geisio mabwysiadu plentyn. Mae hyn yn cynnwys partneriaid heterorywiol ac un-rhyw sy'n cydfyw, yn ogystal â phobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil.

Marwolaeth ac etifeddiaeth

Os yw eich partner yn marw heb ewyllys, ni fyddwch yn etifeddu unrhyw beth yn awtomatig, heblaw eich bod yn berchen ar eiddo gyda'ch partner. Mae angen i'r ddau ohonoch wneud ewyllys os ydych am sicrhau bod y llall yn etifeddu ar eich hôl. Fodd bynnag, yn wahanol i bartneriaid priod neu sifil, bydd yn rhaid i chi dalu treth etifeddu.

Dyled

Rydych chi a'ch partner yn gyfrifol yn gyfreithiol am ddyledion eich hun, am y dyledion ar y cyd ac am unrhyw ddyledion yr ydych yn gyfrifol 'ar y cyd neu'n unigol' amdanynt. Er enghraifft, mae'r ddau ohonoch yn gyfrifol am dalu'r dreth gyngor.

Os ydych wedi gweithredu fel gwarantwr ar gyfer eich partner, eich cyfrifoldeb chi yw'r ddyled.

Arian ac eiddo

Gall perchnogaeth eiddo fod yn gymhleth, ond mae'r rheolau cyffredinol fel y ganlyn:

- mae'r eiddo yr oeddech yn berchen arno cyn dechreuoch fyw gyda'ch partner yn parhau i fod eich eiddo chi
- os brynoch chi'r eitem, fel arfer chi sy'n berchen arno
- os prynwyd yr eiddo o'r cyfrif ar y cyd, chi a'ch partner sy'n berchen arno
- os ydych yn rhoi eiddo i'ch partner, eich partner sy'n berchen arno. Fodd bynnag, gall hyn fod yn anodd ei brofi
- os ydych yn rhoi arian cadw tŷ i'ch partner, fel arfer mae unrhyw eiddo sy'n cael ei brynu gyda chynilion o'r arian hwnnw yn eiddo i chi.

Cyfrifon banc

Os ydych chi yn byw gyda'ch partner ac os oes gennych gyfrifon banc ar wahân, ni fyddwch yn gallu cael mynediad i'r arian sydd yng nghyfrif eich partner. Os yw un partner yn marw, yr ystâd fydd yn berchen ar yr arian yn y cyfrif ac ni fyddwch yn gallu ei ddefnyddio tan fod yr ystâd wedi cael ei setlo.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os oes gennych gyfrif ar y cyd, bydd gan y ddau bartner fynediad i'r arian yn y cyfrif. Os yw enw'r ddau bartner ar y cyfrif pan fod un partner yn marw, mae'r holl arian sydd yn y cyfrif hwnnw yn eiddo i'r partner arall.

Cynhaliaeth ariannol

Nid oes gennych chi gyfrifoldeb cyfreithiol i gefnogi'ch partner yn ariannol. Os ydych chi yn cydfyw ac yn hawlio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, credydau treth, Budd-dal Tai, Budd-dal y Dreth Gyngor neu Gredyd Pensiwn, byddwch yn cael eich trin fel pâr a bydd eich incwm yn cael ei asesu ar y cyd.

Mae'n bosib y gall cytundebau gwirfoddol i dalu cynhaliaeth i'ch gilydd fod yn anodd ei orfodi.

Pensiynau galwedigaethol a phersonol

Mae rheolau cynlluniau pensiwn yn amrywio. Mae p'un ai allwch elwa o gynllun eich partner neu beidio yn dibynnu ar y cynllun. Mae'r mwyafrif o gynlluniau yn cynnig budd-daliadau i blant dibynnol a bydd rhai yn cynnig budd-daliadau i bartner dibynnol. Os yw'r cynllun yn cynnig buddion i bartner o'r rhyw arall, dylai hefyd gynnig buddion i bartner o'r un rhyw. Mae cynlluniau sy'n cynnig buddion i bartneriaid o'r rhyw arall yn unig yn torri cyfreithiau gwahaniaethu.

Grantiau a benthyciadau myfyrwyr

Os ydych yn fyfyriwr sy'n byw gyda'ch partner, bydd incwm eich partner yn cael ei ystyried pan bod eich hawl i grant myfyrwyr yn cael ei bennu (heblaw eich bod yn dibynnu'n ariannol ar eich partner). Caiff incwm eich partner ei anwybyddu pan benderfynir ar eich hawl i dderbyn benthyciad myfyrwyr.

Tai

Tenantiaid

Os ydych yn byw mewn llety rhent gyda'ch partner, mae'n bosib bod eich enw chi neu enwau'r ddau ohonoch ar y cytundeb tenantiaeth. Os yw eich partner yn gadael, neu'n gofyn i chi adael ac nid yw eich enw ar y cytundeb tenantiaeth, gallwch ofyn i'r llys drosglwyddo'r denantiaeth i'ch enw chi. Gallwch hefyd ofyn i'r llys wneud hyn os yw enw'r ddau ohonoch ar y cytundeb tenantiaeth. Bydd y llys yn ystyried yr holl amgylchiadau cyn gwneud penderfyniad. Os ydych mewn sefyllfa debyg, mynnwch gyngor cyfreithiol.

Perchnogion preswyl

Mae'n bosib mai dim ond un enw sydd ar yr eiddo neu efallai bod y ddau ohonoch yn berchen arno. Os mai eich partner yw'r **unig berchennog**, mae'n bosib nad oes gennych unrhyw hawl i aros yn y cartref os yw eich partner yn gofyn i chi adael. Fodd bynnag, os oes gennych blant, gallwch ofyn i'r llys drosglwyddo'r eiddo i'ch enw chi. Bydd y llys yn gwneud hyn os yw'n credu y byddai o les eich plant. Os nad oes gennych blant, mae'n bosib y gallwch ddatgan diddordeb ariannol yn eich cartref os allwch ddangos eich bod wedi gwneud cyfraniad ariannol drwy, er

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

enghraifft, talu am welliannau neu ad-dalu'r morgais. Os oes gennych ddiddordeb ariannol yn eich cartref, mae'n bosib y gallwch stopio'r person arall rhag ei werthu. Bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch ynglyn â ph'un ai bod gennych ddiddordeb ariannol neu beidio.

Os ydych yn **cyd-berchen** ar eich tŷ gyda'ch partner ac rydych yn penderfynu gadael, dylech gymryd camau i amddiffyn eich hawl i ddychwelyd os ydych eisiau. Bydd hefyd angen i chi ddiogelu eich cyfran yng ngwerth eich cartref drwy sicrhau nad yw eich partner yn ei werthu heb yn wybod i chi. Bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch ynglŷn â hyn.

Perthynas agosaf a chaniatâd meddygol

Mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft, os ydych yn gorfod mynd i'r ysbyty, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi roi enw eich perthynas agosaf.

Bydd rhai sefydliadau, er enghraifft carcharau a llawer o ysbytai, fel arfer yn derbyn enw partner di-briod neu bartner o'r un rhyw sy'n byw gyda chi fel eich perthynas agosaf. Os hoffech enwi eich partner fel eich perthynas agosaf, dylech fynnu eu bod yn ei dderbyn. Fodd bynnag, nid oes llawer y gallwch ei wneud os yw'r sefydliad yn gwrthod ei dderbyn.

Nid oes gan unrhyw un yr hawl i roi caniatâd am driniaeth feddygol i oedolyn arall. Fodd bynnag, mae doctoriaid fel arfer yn trafod penderfyniadau gyda theulu'r claf ac ni ddylai hyn eithrio partner hyd yn oed os nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Dod o hyd i gyfreithiwr
Gall wefan Cymdeithas y Gyfraith eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr sy'n arbenigo yn y maes perthnasol. Ewch at www.lawsociety.org.uk

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 9 Medi 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr